FERSIWN HAWDD EI DEALL

# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

## Adroddiad Blynyddol 2018/19






# Y ddogfen hon




Dyma'r fersiwn hawdd ei darllen.



Os bydd angen help a chefnogaeth arnoch i ddeall y ddogfen hon, gofynnwch i rywun rydych yn ei adnabod i wneud hyn.



Efallai bydd rhai geiriau yn anodd eu deall. Mae'r rhain wedi'u nodi mewn **ysgrifen glas trwm**.

Mae ystyr y rhain yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair. Os yw’r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae e' mewn ysgrifen glas normal.



Gallwch weld ystyr y geiriau anodd ar dudalen 20.


# Cynnwys


| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |
| Y ddogfen hon | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Gwybodaeth am yr adroddiad hwn | 7 |
| Ein Hamcanion Lles | 8 |
| Y Blynyddoedd Cynnar | 9 |
| Byw'n dda a Heneiddio'n dda | 11 |
| Gweithio gyda Natur | 13 |
| Cymunedau cryf | 15 |
| Rhannu dros Abertawe | 16 |
| Ein ffyrdd o weithio | 17 |
| Cymryd rhan | 19 |
| Geiriau anodd | 20 |


made with photosymbols®

Cafodd y ddogfen hon ei throi'n fersiwn hawdd ei darllen gan ddefnyddio Photosymbols.

# Cyflwyniad



Ni yw **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe**.

Rydyn ni'n cynnwys arweinwyr o'r:



- **Gwasanaethau Cyhoeddus**



- Busnesau



- Grwpiau gwirfoddol.




Y llywodraeth sy'n rhedeg ac yn talu am y **gwasanaethau cyhoeddus**.

Fel cynghorau lleol, y GIG, yr heddlu neu'r Gwasanaeth Tân ac Achub.



Sefydlwyd **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** ym mhob ardal yng Nghymru er mwyn:



- edrych ar **les** yn yr ardal



- gweithio gyda'n gilydd i wella lles yn Abertawe.



Easy Read
Swansea Public Services Board
Annual Report 2018/19

Pwrpas yr adroddiad yw dangos sut rydym yn gweithio i wella lles Abertawe nawr ac yn y dyfodol.



**Lles** yw bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd.



**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Dechreuodd y ddeddf yn 2015.

Mae gan y Ddeddf hon 7 nod er mwyn gwneud Cymru'n lle gwell i bobl fyw ynddi nawr ac yn y dyfodol.



Er mwyn bodloni'r nodau hyn, mae angen i Abertawe:

- Fod yn lle iach i fyw ynddo
- Gwneud yn dda a bod pobl â swyddi a sgiliau da
- Bod yn deg
- Bod yn ddiogel
- Cael llawer o leoedd gwyrdd ac edrych ar ôl ein tir, ein dŵr a'r aer
- Dathlu sut mae pobl yn byw
- Cael effaith dda ar y byd.

# Gwybodaeth am yr adroddiad hwn



Yn 2016, fe wnaethon ni edrych i weld sut beth yw lles i bobl yn Abertawe.



Fe wnaethon ni edrych ar lawer o bethau gwahanol sy'n helpu i wneud Abertawe yn lle gwell i fyw ynddi.




Defnyddion ni beth roeddem wedi'i ddysgu i greu adroddiad **'Cynllun Lles Lleol Abertawe - Gweithio Gyda'n Gilydd i Adeiladu Dyfodol Gwell'.**




Mae'r adroddiad hwn yn dangos beth rydym wedi ei wneud yn y flwyddyn gyntaf er mwyn gweithio tuag at ein 4 **amcan** lles.



**Amcanion** yw nodau rydym yn gweithio tuag atyn nhw.



# Ein Hamcanion Lles

Dyma'n hamcanion lles:



1. **Y Blynyddoedd Cynnar** Gwneud yn siŵr bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.



2. **Byw'n dda a heneiddio'n dda** Gwneud yn siŵr bod Abertawe yn lle da i fyw a mynd yn hen.




3. **Gweithio gyda Natur** Gwella ein hiechyd a gofalu am ein **hamgylchedd**.

Yr amgylchedd yw'r tir, y dŵr a'r aer - popeth sy'n byw yno fel y bobl, yr anifeiliaid a'r planhigion.



4. **Cymunedau cryf**. Adeiladu cymunedau cryf y mae pobl yn teimlo’n falch ohonyn nhw.




Rydyn ni eisiau bodloni'r amcanion lles erbyn 2040.



## 1. Y Blynyddoedd Cynnar

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.




Drwy wneud hyn, bydd pobl yn fwy iach, yn dysgu'n well ac yn llai tebygol o fod yn dlawd fel oedolion.



Fe ymunom ni â **Rhaglen Gydweithredol y 1000 Diwrnod Cyntaf Iechyd Cyhoeddus Cymru**.

Mae’r prosiect yma yn ceisio gwneud cefnogaeth yn well i fenywod beichiog a babanod hyd at 2 oed.



Rydym wedi gweithio gyda'n gilydd i helpu mamau beichiog a'u teuluoedd newydd drwy brosiect **Jig-so**



Rydym wedi gwneud yn siŵr bod staff y gwasanaethau cyhoeddus yn **gwneud i bob cysylltiad gyfrif** er mwyn rhoi cyngor i rieni wella lles.

Rydym wedi rhannu gwybodaeth drwy'r ymgyrch '**Dechrau Gorau**' ar gyfryngau cymdeithasol ac mewn digwyddiadau blynyddol fel y '**taith gerdded cadeiriau gwthio**' flynyddol.



Rydym wedi edrych ar sut i helpu gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar i weithio gyda'i gilydd yn well.

Bydd '**Rhaglen Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar**' Cymru yn ein helpu i ddysgu o waith da.



Rydym wedi newid ein systemau i wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n helpu plant cyn gynted â phosib.

Bydd hyn yn stopio problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

## 2. Byw'n dda a heneiddio'n dda



Rydyn ni eisiau gwneud Abertawe yn lle gwych i fyw a mynd yn hen ynddi.



Rydyn ni eisiau cefnogi pobl i deimlo'n ddiogel, yn iach ac yn annibynnol am byth.



Rydyn ni wedi gweithio gyda phartneriaid i greu cynllun gweithredu ar gyfer cymunedau sy'n ystyriol o **ddementia**.

Salwch yw **dementia** sy'n effeithio ar gof pobl a beth mae nhw'n ei feddwl ac yn ei wneud.



Rydyn ni wedi cynnal gweithdai **Cenedlaethau sy'n Ystyriol o Ddementia** gyda phobl fel eu bod yn gallu deall a helpu pobl â dementia.




Rydyn ni wedi hyfforddi staff ar gyfer **Gwneud i bob Cysylltiad Gyfrif** ac wedi datblygu cardiau i'w helpu i rannu gwybodaeth.

Mae hyn yn helpu pobl i deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain




Rydyn ni wedi helpu pobl dros 50 oed i gael gwaith eto drwy **ein clwb** yn **Abertawe'n Gweithio**.



Gofynnon ni i breswylwyr sut i wneud Abertawe'n **Ddinas sy'n Ystyriol o Oed**.

Rydyn ni wedi gwella'r cynlluniau newydd ar gyfer canol y ddinas.




Mae ein **Tîm Cydlynu Ardal Leol** yn awr yn cynnwys 11 o gymunedau.
Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl yn helpu eu hunain a'u cymunedau i fyw'n dda.



Roedden ni wedi dathlu Diwrnod Hawliau Dynol gyda digwyddiad y **Sgwrs Fawr** lle roedd cyfle i bobl ifanc a hŷn rannu eu syniadau.



**<u>Gweithio gyda Natur</u>**

Rydyn ni eisiau edrych ar ôl ein hamgylchedd.

Mae'n bwysig ar gyfer ein lles.



Cafodd y cyhoedd gyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau.

Dywedon nhw wrthon ni beth y mae natur yn ei olygu iddyn nhw.




Ysgrifennon ni gynllun er mwyn gwneud y gorau o leoedd gwyrdd.

Rydyn ni wedi gweithio gyda chymunedau i ddod o hyd i ffyrdd o weithredu'r cynllun.



Rydyn ni wedi plannu coed ac wedi helpu pobl leol i wella mannau gwyrdd.



Cawson ni **Gynhadledd Gweithio gyda Natur**. Roedd hyn wedi helpu pobl i ddysgu mwy am beth gallwn ni ei wneud i helpu'r amgylchedd.



Ysgrifennon ni **arweiniad** fel bod datblygwyr yn gallu helpu natur cymaint â phosib os bydd newidiadau i'n dinas.



Cawson ni drafodaethau i helpu pobl i ddeall sut gallan nhw helpu i atal yr amgylchedd rhag cael ei niweidio.



Mae **Bae Abertawe Carbon Isel** wedi helpu sefydliadau i ddysgu mwy am beryglon **newid yn yr hinsawdd**.

Maen nhw wedi ein helpu i ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod mygdarthau sy'n llai niweidiol yn mynd yr aer.



Newid yn yr hinsawdd yw newidiadau yn nhywydd y byd, fel yr aer a dŵr yn twymo'n rhy gyflym.



# 3. Cymunedau cryf

Rydyn ni eisiau i bobl gael yr un cyfleoedd mewn bywyd a bod yn falch o fyw yn Abertawe.



Rydyn ni wedi helpu pobl i deimlo'n dda am eu cymunedau.

Man cymunedol yw **Hub on the Hill** sy'n ei gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan.



Fe roddon ni gyfle i bobl gael dweud eu dweud am gynlluniau ar gyfer eu cymunedau.

Roedd cynllun **Clase 4 All** wedi'i arwain gan bobl leol a oedd am gael lleoedd chwarae gwell.



Rydyn ni wedi cefnogi ffyrdd newydd o wneud i bobl deimlo'n well a gwella iechyd yng **Nghwmtawe**



Rydyn ni wedi creu Grŵp Hawliau Dynol i weld sut gall Abertawe ddod yn **Ddinas Hawliau Dynol**



# Rhannu dros Abertawe

Mae Rhannu dros Abertawe yn ymwneud â sut gallwn ni weithio gyda'n gilydd. Mae hefyd yn rhannu ein **hadnoddau** a'n gwybodaeth.



Adnoddau yw'r pethau defnyddiol sydd gennym, fel

adeiladau, trafnidiaeth, gwybodaeth, arian a staff.



Rydyn ni wedi helpu partneriaid **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe** i ddysgu am ei gilydd.

Rydyn ni nawr yn deall ein gilydd fel y gallwn ni gefnogi gwaith a nodau ein gilydd.



Edrychon ni ar ein **Bwrdd Eiddo Lleol** i rannu gwybodaeth am ein hadeiladau a'n hadnoddau.



Dysgon ni sut gallwn ni roi llais i bobl a'u cynnwys.

Sefydlwyd **Rhwydwaith Cydgynhyrchu Abertawe** er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio y gall yr holl bartneriaid eu defnyddio.

# Ein ffyrdd o weithio




Rydyn ni'n meddwl am Rannu dros Abertawe pan rydym yn gweithio tuag at ein hamcanion lles.



**Cynnwys pobl.**

Rydyn ni'n gofyn i bobl am eu barn ac yn defnyddio'u syniadau i wella ein cynlluniau.




Rydyn ni wedi hyfforddi staff i ddefnyddio'r fersiwn hawdd ei darllen fel y gall pawb ei deall a rhoi eu barn arni.



**Gweithio gyda'n gilydd.**

Rydyn ni'n gweithio gyda'n sefydliadau partner i rannu gwybodaeth fel y gallwn ni ddelio â phroblemau fel y defnydd o gyffuriau.



Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghastell-nedd Port Talbot, fel dod o hyd i arian i wella mannau gwyrdd fel y 'Pwll Golchi' yn Mayhill.

## Meddwl am gynlluniau ein gilydd



Rydyn ni'n rhannu cynlluniau a nodau gyda'n partneriaid fel y gallwn weithio gyda'n gilydd.

Mae digwyddiadau a gweithdai'n ein helpu i ddeall cynlluniau ein gilydd ar gyfer Abertawe.

## Tymor hir.



Rydym yn meddwl am sut y bydd ein camau gweithredu'n newid Abertawe yn 2040 yn ogystal â gwella Abertawe yn awr.

Mae'r gweithdy hwn wedi ein helpu i feddwl am ddyfodol Abertawe.

## Ataliaeth




Mae ein holl waith yn ceisio stopio problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth. Mae'r cardiau hyn yn helpu ein staff i gael yr help cywir ar gyfer pobl mor gynnar â phosib.

# Geiriau anodd

### Newid yn yr Hinsawdd
Newid yn yr hinsawdd yw newidiadau yn nhywydd y byd, fel yr aer a'n dŵr yn twymo.

### Dementia
Salwch yw dementia sy'n effeithio ar gof pobl a beth maen nhw'n ei feddwl ac yn ei wneud.

### Amgylchedd
Yr amgylchedd yw'r tir, y dŵr, a'r aer a phopeth sy'n byw ynddo neu arno. Er enghraifft, pobl, anifeiliaid a phlanhigion.

### Amcanion
Amcanion yw nodau rydyn ni'n gweithio tuag atynt.

### Gwasanaethau Cyhoeddus
Y llywodraeth sy'n rhedeg ac yn talu am y gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys cynghorau lleol, y GIG, yr heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

### Adnoddau
Adnoddau yw'r pethau pwysig sydd gennym. Mae'r rhain yn cynnwys adeiladau, trafnidiaeth, gwybodaeth, arian a staff.

### Lles
Mae lles yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus yn ei fywyd a'r pethau maen nhw'n eu gwneud.



## Cymryd rhan

Mae ein cyfarfodydd yn gyhoeddus

Rydyn ni'n croesawu cwestiynau gan y cyhoedd




I gael rhagor o wybodaeth ewch i:

**Gwefan**

www.swansea.gov.uk/swanseapsb




**E-bost**
BGC.abertawe@abertawe.gov.uk




**Ffôn**
07989138917



Diolch i bawb oedd wedi helpu i brofi'r fersiwn hawdd ei darllen hon

**Pobl yn Gyntaf Gorllewin Morgannwg,**

**Eiriolaeth eich Llais (Your Voice Advocacy)**